Annwyl Dyfed,

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth isod gyda'ch cydweithwyr...

Diolch am eich e-bost ynglŷn â'r Bartneriaeth Fasnach a Buddsoddiad Trawsiwerydd (TTIP).

Hoffwn eich sicrhau, yn wahanol i'r hyn sydd wedi cael ei ddweud wrthych efallai, nad yw Senedd Ewrop yn mynd i bleidleisio ar unrhyw gytundeb yn fuan. Dechreuodd y trafodaethau ym mis Mehefin y llynedd, ac mae'r trafodwyr yn anelu i gwblhau'r cytundeb erbyn diwedd 2015. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol iawn oherwydd cymhlethdod y trafodaethau. Hwyrach na fydd y cytundeb hyd yn oed yn cael ei gyflwyno gerbron Senedd Ewrop yn ystod y tymor presennol (2014-2019).

Fel mae'n sefyll, nid yw'r UE a'r UD wedi dechrau drafftio'r TTIP eto. Dim ond yr wythnos ddiwethaf y daeth cam arbrofol y trafodaethau i ben, lle roedd y ddwy ochr yn cyfnewid syniadau heb unrhyw ymrwymiad ffurfiol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw destun ar gael i ni – nac yn wir i neb – allu ffurfio barn ddeallus ar y TTIP. Nid yw'r trafodwyr wedi cytuno eto ar unrhyw gynigion ynghylch gwasanaethau cyhoeddus neu drefniadau Setlo Anghydfod Gwlad sy'n Buddsoddi (*Investor-State Dispute Settlement* neu ISDS), ac nid ydynt wedi cytuno ar unrhyw un o'r cynigion allai fod o fantais bosib i gwmnïau a phrynwyr y DU, megis cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cwmnïau bychain a chanolig yn y DU rhag gallu allforio i'r UD.

Er hyn, rydym yn cadw llygad craff ar y TTIP. Er nad oes gan Senedd Ewrop bwerau ffurfiol yn y trafodaethau, gan mai'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n eu cynnal yn llwyr, mae ganddi'r grym i roi feto ar y testun terfynol. Mae hyn yn ein galluogi i ddylanwadu ar y broses wrth rybuddio'r Comisiwn na fyddwn yn cefnogi unrhyw gytundeb nad yw'n rhoi sylw i'n pryderon penodol ni.

Fel Aelodau Seneddol Ewropeaidd y Blaid Lafur, rydym wedi ei gwneud yn glir y byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gytundeb sy'n peryglu'r GIG neu'n atal llywodraeth Lafur yn y dyfodol rhag dod â'r GIG yn ôl i weinyddiaeth gyhoeddus. Ar y mater hwn, gall llywodraeth bresennol y DU yn hawdd sicrhau bod y GIG yn cael ei eithrio o unrhyw gytundeb yn y dyfodol, ac mae'n rhaid i ni barhau i bwyso arni i wneud hynny. Ni fyddwn yn rhoi unrhyw gefnogaeth i gytundeb sy'n cyfyngu ar sofraniaeth pobl Prydain ac ymreolaeth ei gynrychiolwyr etholedig, yn enwedig trwy fecanweithiau ISDS diffygiol.

Gallaf eich sicrhau fy mod i, ynghyd â'm cydweithwyr o'r Blaid Lafur yn Senedd Ewrop, yn rhannu eich pryderon ynglŷn â'r TTIP, a byddwn yn parhau i bwyso ar y Comisiwn am gytundeb sydd wirioneddol o fudd i holl ddinasyddion y DU.

Cofion cynnes,
Derek Vaughan ASE
Llawr 4
Transport House
1 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 7JR
contact@derekvaughanmep.org.uk